

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

<http://senedd.tv/cy/3913>

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Mawrth 2017

Amser: 14.00 – 16.20

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Neil McEvoy AC Rhianon Passmore AC Lee Waters AC
Tystion:	Alan Brace, Llywodraeth Cymru Andrew Evans, Llywodraeth Cymru Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru Dr Jean White, Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru:	Huw Vaughan Thomas – Archwilydd Cyffredinol Cymru Dave Thomas – Swyddfa Archwilio Cymru:
Staff y Pwyllgor:	Meriel Singleton (Ail Glerc) Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cofnod y Trafodion

Gweld [Cofnod y Trafodion](#)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor i'r cyfarfod.
- 1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Dull strategol cynghorau o ran creu incwm a chodi ffioedd: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (21 Chwefror 2017)

2.2 Dull strategol cynghorau o ran creu incwm a chodi ffioedd: Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Chwefror 2017)

2.3 Dull strategol cynghorau o ran creu incwm a chodi ffioedd: Gwybodaeth ychwanegol gan Ddinas a Sir Caerdydd (Chwefror 2017)

3 Rheoli meddyginiaethau: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr y GIG; Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol; yr Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio; ac Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i ymchwiliad i reoli meddyginiaethau.

3.2 Cytunodd Dr Goodall i gynnal gwerthusiad ar nifer y wardiau sy'n defnyddio peiriannau gwerthu awtomatig ar gyfer meddyginiaethau a bydd yn ceisio egluro tensiynau yn y system ar yr un pryd.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i gymryd rhagor o dystiolaeth gan y byrddau iechyd yn nhymor yr haf.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

5 Rheoli meddyginiaethau: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

6 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Gohiriodd y Pwyllgor y drafodaeth ynghylch yr adroddiad drafft tan y cyfarfod nesaf.

7 Cyfrifon Cyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015–16: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

7.1 Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ddiweddariad llafar ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran Cyfrifon Blyneddol Cyfoeth Naturiol Cymru 2015–16.

8 Cyllid Awdurdodau Lleol ar gyfer Gwasanaethau Trydydd Sector: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

8.1 Cafodd y Pwyllgor friff ynghylch adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ei adroddiad diweddar ynghylch Cyllid Awdurdodau Lleol ar gyfer Gwasanaethau Trydydd Sector.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn amlinellu pryderon ynghylch caffael priodol ar gyfer gwasanaethau trydydd sector. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y mater hwn ar ôl cael ei ymateb.

9 Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cyngorau Cymuned 2015–16: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

9.1 Cafodd y Pwyllgor friff am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ei adroddiad diweddar ynghylch Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cyngorau Cymuned 2015–16.

9.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn mynegi ei bryder am wendidau o ran llywodraethu a rheolaeth ariannol ar draws y sector a'i wahodd i roi sylwadau ar ganfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y mater hwn ar ôl cael ei ymateb.

10 Yr heriau llywodraethu sy'n cael eu peri gan wasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru: papur trafod Archwilydd Cyffredinol Cymru

10.1 Cafodd y Pwyllgor friff ynghylch adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ei bapur trafod am yr heriau llywodraethu sy'n cael eu peri gan wasanaethau a ddarperir yn anuniongyrchol, ac a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru.

10.2 Nododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nhymor yr hydref.